

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 5 MAWRTH 2019

Presennol

Cadeirydd Y Dirprwy Faer – Cyng W T Owen

Cynghorwyr

I C Thomas, B Owen, W L Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, M Sarnacki, C Larsen, J W Parry, K Richards, S Sage, R Thomas

Siaradwr Gwadd : Dylan Herbert pennaeth adnoddau SP Energy Networks

Cefndir

Mae'r cwmni yn gweithredu mewn dros 40 o wledydd fel DNO "Distribution Network Operator", ac yn gyfrifol am dod a trydan i'r tŷ. Dim y corff sydd yn creu anfonebau i'r tai, dim ond creu y cyflenwad i'r tŷ.

Dros 140 o staff leol a dros 300 o gontractwyr

70% o'i cyllid yn dod fel allbwn o'r cynllun busnes 2015-2023 a'r gweddill yn dod o dai newydd yn cael eu hadeiladu

Ar gyfartaledd ryw 30c y diwrnod ma pobl yn talu fel "standing charge"

Diffygion diweddar

Cafwyd trafferthion yn ardal Gaernarfon ym Mis Medi, Noson Tan Gwylt- y broblem oedd yn ymwneud a ceblau o dan dir yn Cae Gwyn – mae'r gwaith yma wrthi yn cael ei weithredu gan bod y perchennog tir wedi caniatáu

Ffordd Bethel – cafwyd fandaliaeth, ond nad oedd y lluniau TCG yn rhoi tystiolaeth digon clir, wnaeth y fandaliaeth creu gwendid yn y system, ac oherwydd wnaeth y system ddiffodd eto ar Dydd San Steffan. Mae'r ceblau ar hyn o bryd yn cael eu profi i weld os oes angen adnewyddu

Gwaith ar y gweill

17 miliwn cael ei wario yn Gogledd Cymru yn flynyddol

1.7 miliwn yn cael ei wario ar ail neud yr is-orsaf yn ffordd Bethel, a diwedd y flwyddyn fydd y transformer yn cael ei newid. Gwaith fibre yn mynd ymlaen yn y dref hefyd.

3.8 miliwn felly yn cael ei wario yn ardal Caernarfon eleni.

Her y dyfodol fydd uwchraddio y rhwydwaith ar gyfer ceir trydan. Fel diwydiant yn herio y llywodraeth i gael arian i wneud y gwaith. Her drwy Prydain hefo nifer o geir trydan ar y farchnad.

1. Ymddiheuriadau

E R Hughes, W R Owen, C Williams, D L Jones, K Jones

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Orymdaith Gŵyl Dewi a dadorchuddio plac – diolch yn fawr iawn i bawb a chyfrannodd at lwyddiannau'r diwrnod

Gem Pêl-droed Mawrth 1af

Nodwyd marwolaeth cyn faeres y Dref Mrs Elsie Thomas , safodd pawb am funud fel arwydd o barch

Llongyfarch Cyng Cemlyn Williams ar ei benodiad i Cabinet Cyngor Gwynedd

3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas eitem 11 a 15

W T Owen eitem 15

A Hopcyn eitem 11

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 5 Chwefror 2019

ii) Panel Cyllid 12 Chwefror 2019

iii) Pwyllgor Gwaith 19 Chwefror 2019

Penderfynwyd

i) derbyn fel rhai cywir (unfrydol)

ii) Derbyn a'u mabwysiadu (unfrydol)

iii) Derbyn a'u mabwysiadu (unfrydol)

6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Maerolaeth 2019 – 2020

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, a'r eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. William Tudor Owen . Cafwyd adroddiad gan Cyng C Larsen bod noson llwyddiannus wedi cymryd lle a falch o nodi bod Cyng W T Owen yn derbyn y swydd

Penderfynwyd

Llongyfarch Cyng W T Owen (unfrydol)

(cyrhaeddodd Cyng A Hopcyn am 6.40)

9. Maerolaeth 2019– 2020

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2019 – 2020

Penderfynwyd

Enwebu Cyng Maria Sarnacki i fod yn Dirprwy Faer am y flwyddyn 2019 – 2020 (unfrydol)

10.Trwyddedu

- i) Clwb Rygbi
- ii) Twll yn y Wal

Penderfynwyd

- i)* Cefnogi (unfrydol) (roedd Cyng A Hopcyn a Cyng I C Thomas allan)
- ii)* Cefnogi (unfrydol)

11.E-bost Grant Peisley Deg Cymru

Parthed 'Emergency Climate'

Penderfynwyd

Gofyn iddo ddod fel siaradwr gwadd i'r Cyngor (unfrydol)

12. Unllais Cymru

- i) Pŵer solar cymunedol
- ii) Aelodaeth

Penderfynwyd

- i) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)
- ii) Talu aelodaeth (unfrydol)

13. Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol

- i) Llythyr cydnabod mewnbwn
- ii) Adroddiad blynyddol 2019

Penderfynwyd

- i) Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)
- ii) Mabwysiadau penderfyniad 40 , 41 (cadeiryddion pwyllgorau)
,43,44, 45,46,47,48,49 (i gyd yn unfrydol)

14. Cyngor Gwynedd

Gorchymyn amrywio Cei Llechi

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth gan ei fod wedi pasio tro diwethaf (unfrydol)

15. Peiriant Ffacs

Penderfynwyd

Dileu y peiriant ffacs (unfrydol)

16. Cynllun dirprwyo i bwyllgorau ac Is Bwyllgorau

Penderfynwyd

Mabwysiadu (unfrydol)

17. Gwerthuso Clwb Ieuenticid

Eglurodd y clerch y cefndir a bod angen ateb ar 3 elfen sef

Cyfrif banc, sky, staffio

Penderfynwyd

- i) bod ni yn fodlon rhedeg y cyfrif banc (unfrydol)
- ii) angen gofyn wrth y plant parthed sky (unfrydol)
- iii) cytuno i'r costau staffio (unfrydol)

18. Cynllun fflagiau

Roedd copi o gynllun presennol y cyngor tref a copi o gynllun Cyngor Gwynedd wedi eu cyflwyno . Rhoddodd y clerc gefndir y protocol a gan bod ganddo ni ddau polyn bod na reolau ynghylch a pa fflagiau y dylid hedfan a pa bryd

Penderfynwyd

Mabwysiadu cynllun Cyngor Gwynedd gan newid lle oedd yn dweud Hedfan fflag y Cyngor i hedfan fflag Caernarfon , ac ychwanegu hedfan tre gefeillio pan yn ymweld. Fflag Jac yr Undeb i ffluo ar Sul y Cofio ynghyd a'r Ddraig goch (unfrydol)

(roedd hyn yn groes i Gyngor y swyddog priodol)

19. Yr Arolygiaeth Cynllunio

Cais gan National Grid

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

20 Cwestiynau

Oes posib edrych ar sefyllfa Noson Y Maer ac ystyried llefydd gwahanol i'w gynnal ? angen rhybudd o gynnig

Gorffennodd y cyfarfod am 7.30

Arwyddwyd Dyddiad

+ -